**Atebion i Gwestiynau'r Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol am y Cytundeb Partneriaeth Economaidd Gynhwysfawr rhwng y DU a Siapan**

1. ***A yw Llywodraeth Cymru wedi asesu'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd Gynhwysfawr rhwng y DU a Siapan ("CEPA") ac a all esbonio beth yw'r gwahaniaeth rhwng CEPA a'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng yr UE a Siapan (JEEPA")?***

   Ydy a gall. Bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu'r asesiad llawn â'r Pwyllgor cyn gynted ag y gall a chyn ei gyhoeddi. Caiff yr asesiad ei gyhoeddi cyn 7 Rhagfyr pan y disgwylir i broses graffu Deddf Diwygio Cyfansoddiadol a Llywodraethiant 2010 (CRaG) ddirwyn i ben yn Senedd y DU.

   Gan fod y CEPA rhwng y DU a Siapan i raddau helaeth yn ddilyniant o'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng yr UE a Siapan, mae llawer o'r darpariaethau a'r erthyglau union yr un fath.

   Ceir fodd bynnag rai gwahaniaethau rhwng y ddau gytundeb. Er enghraifft, ceir yn CEPA ddarpariaethau ychwanegol am wasanaethau ariannol, data a meysydd digidol a cheir pennod newydd hefyd am Fasnach a Rhoi Grym Economaidd i Fenywod.

2. ***Sut y bydd CEPA yn debygol o effeithio ar:***

   ***- sectorau unigol yng Nghymru;***

   ***- cwsmeriaid Cymru; a***

   ***- materion cymdeithasol, llafur, amgylcheddol a lles anifeiliaid?***

**Sectorau unigol**

Mae'r pwyntiau isod yn grynodeb lefel uchel o'n casgliadau ynghylch y themâu uchod. Fe welwch fwy o fanylion yn ein hasesiad llawn. Mae'n canfyddiadau'n seiliedig ar ein dadansoddiad o destun y cytundeb ac o Asesiad Llywodraeth y DU o'r Effeithiau. Mae'n werth nodi bod Asesiad y DU o'r Effeithiau yn cyflwyno effeithiau CEPA o'u cymharu â senario lle na fyddai'r DU yn rhan o'r EPA. Gallai hynny 'chwyddo' buddiannau'r fargen. Hefyd, mae dadansoddiad y DU yn rhagdybio y ceir cytundeb rhwng y DU a'r UE.

**Modurol**

- Nid oes bwriad cyflymu'r amserlen ar gyfer rhyddfrydoli'r tariffau ar geir a rhannau ceir ymhellach na'r amserlen y cytunwyd arni yn yr EPA. Bydd hyn yn rhoi rhywfaint o sicrwydd i gynhyrchwyr domestig y cynnyrch hyn.

- O berthnasedd arbennig i'n sector modurol ni y mae trefniadau'r Rheolau ynghylch Tarddiad. Mae CEPA yn caniatáu trefniadau cyfunol er mwyn i'n hallforwyr i Siapan allu cyfrif bod deunydd a gwaith prosesu o'r UE yn tarddu o'r DU. Gallai codi rhai o'r Rheolau llai cyfyngus ar Gynnyrch Penodol o'u

cymharu ag EPA gynnig mwy o gyfleoedd i weithgynhyrchwyr y ddwy wlad mewn rhai nwyddau gael hyd i'r deunydd crai sydd eu hangen arnynt o wledydd eraill ar gyfer eu hallforion i'w gilydd.

**Amaethyddiaeth a Bwyd a Diod**

- Cedwir effeithiau EPA o ran Dynodiadau Daearyddol, gan ddiogelu tri chynnyrch (ddim un ohonyn nhw o Gymru) o dan gynllun Dynodiadau Daearyddol Siapan.

- Mae Llywodraeth y DU wedi sicrhau darpariaeth sy'n dweud cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl i'r cytundeb ddod i rym, y bydd pob parti'n ymgynghori ac yn rhoi rhestr o Ddynodiadau Daearyddol i'r Parti arall ar gyfer eu hychwanegu at y Cytundeb, yn amodol ar drefn archwilio a gwrthwynebu. Mae pymtheg o'r saith deg o gynnyrch y mae Llywodraeth y DU wedi dweud ei bod am eu gweld yn cael eu cofrestru yn Siapan yn dod o Gymru. Yn eu plith y mae cig oen Cymreig a halen môr Môn.

- Gallai'r darpariaethau hyn gael effaith fach ond positif ar sector bwyd a diod Cymru yn y tymor hir, gan ddibynnu i ba raddau y bydd busnesau o Gymru'n eu defnyddio.

**Data a Digidol**

- Mae darpariaethau uchelgeisiol a blaengar yn y sector digidol a data yn mynd â'r CEPA ymhellach na'r fargen rhwng yr UE a Siapan. Mae Siapan wedi cytuno i godi ei threfniadau ar leoleiddio data. Bydd hynny'n gwella'r llif data ac yn creu cyfleoedd ar gyfer busnesau mewn gwasanaethau ariannol a diwydiannau e-fasnach.

**Gwasanaethau Ariannol**

- Ceir nifer o fanteision, yn enwedig o ran ymrwymiadau i hyrwyddo cydweithrediad a thryloywder rheoleiddiol a chyfreithiol rhwng y ddau barti. Dylent roi mwy o sicrwydd ac eglurder i ddarparwyr gwasanaethau ariannol y DU sy'n gweithredu yn Siapan, ac fel arall.

**Cwsmeriaid yng Nghymru**

- Mae Asesiad Llywodraeth y DU o'i Effeithiau yn dangos bod Cymru'n mewnforio rhyw 7% o holl fewnforion Japan i'r DU. Er bod modelau'n amcangyfrif y gallai'r cytundeb olygu arbediad o hyd at £4m i gwsmeriaid Cymru, mae'r dystiolaeth o effaith tariffau ar brisiau yn amrywio ac rydym yn disgwyl y bydd maint yr arbedion yn dibynnu ar y graddau y caiff arbedion o gostau mewnforio is eu trosglwyddo i'r cwsmer.

**Materion Cymdeithasol, Llafur, Amgylcheddol a Lles Anifeiliaid**

- Mae'r CEPA i raddau helaeth yn atgynhyrchu'r bennod ar Fasnach a Datblygu Cynaliadwy (TSD) yn yr EPA, gan gynnwys yr agweddau sy'n ymwneud â'r amgylchedd a'r newid yn yr hinsawdd. Rydym yn cefnogi'r darpariaethau hyn.

- Mae'r amcangyfrifon yn awgrymu na ddisgwylir i'r CEPA gael effeithiau arwyddocaol ar allyriadau nwyon tŷ gwydr (COS ac eraill), y defnydd o ynni, allyriadau cludo masnach ac effeithiau amgylcheddol ehangach fel ansawdd aer, bioamrywiaeth a defnydd/ansawdd dŵr.

- Mae cyfeiriadau at gonfensiynau a chyfreithiau llafur wedi'u cynnwys yn y bennod TSD drwyddi draw. Mae hynny'n gyson â'r EPA.

- Ceir pennod newydd ar Fasnach a Rhoi Grym Economaidd i Fenywod. Rydym yn ei chefnogi.

- Ceir union yr un darpariaethau ar les anifeiliaid ag yn yr EPA, gydag ymrwymiad i sefydlu gweithgor technegol ar les anifeiliaid. Rydym yn gefnogol yn fras i'r ddarpariaeth hon ond gan fod lles anifeiliaid yn fater datganoledig, rydym yn aros am eglurhad gan Lywodraeth y DU o'n rôl yn y gweithgor hwn.

3. ***Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud eisoes mai ei blaenoriaeth ar ôl sicrhau cytundeb masnach rydd rhwng y DU a'r UE, fyddai cytundeb rhwng y DU a Siapan, er mwyn sicrhau dilyniant i fusnesau sydd eisoes yn elwa ar fuddiannau'r cytundeb rhwng yr UE a Siapan. A yw Llywodraeth Cymru'n hyderus y bydd y CEPA yn rhoi'r dilyniant hwnnw i fusnesau Cymru?***

Ydy. Mae CEPA yn sicrhau dilyniant i'r EPA gan fod llawer o'r darpariaethau a'r erthyglau union yr un fath.

4. ***Ydy'r asesiad terfynol o effeithiau'r CEPA yn adlewyrchu dealltwriaeth Llywodraeth Cymru o effeithiau posibl y cytundeb ar economi, sectorau a busnesau Cymru?***

Ydy, mae ein dadansoddiad yn seiliedig ar y modelau economaidd yn Asesiad Llywodraeth y DU o'r Effeithiau. Fodd bynnag, gwnaeth y gwaith modelu CGE (*Computable General Equilibrium*) a wnaed gan CEPR (ar ran yr Adran Masnach Ryngwladol) nifer o ragdybiaethau a allai 'chwyddo' y manteision:

- Ystyriodd effeithiau CEPA rhwng y DU a Siapan gan eu cymharu â senario lle na fyddai gan y DU gytundeb masnach â Siapan.
- Mae'n seiliedig ar ragdybiaeth y bydd yna gytundeb rhwng y DU a'r UE.

Gall dadansoddiad CGE fod yn awgrym defnyddiol iawn o faint yr effeithiau economaidd yn sgil newidiadau i bolisi. Ond ni ddylid ystyried canlyniadau CGE fel rhagolwg neu broffwydoliaeth o'r dyfodol. Fel gydag unrhyw fodel economaidd felly, dylid ystyried y canlyniadau yn eu cyfanrwydd a law yn llaw â thystiolaeth ansoddol arall.

5. ***Mae Llywodraeth y DU wedi dweud bod gwelliannau wedi'u gwneud i'r CEPA o'i gymharu â'r Cytundeb Partneriaeth Economaidd rhwng yr UE a Siapan, gan gynnwys y sectorau data a digidol, gwasanaethau ariannol a bwyd a diod. Pa asesiadau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cynnal i ddeall sut y bydd y newidiadau a wnaed i'r CEPA o'i gymharu â'r JEEPA yn effeithio ar sectorau a busnesau Cymru?***

   Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ei asesiad ei hun o effeithiau'r CEPA ar sectorau a busnesau yng Nghymru o'i gymharu â'r EPA. Ond rwy'n pwysleisio bod yr asesiad hwn yn seiliedig i raddau helaeth ar y dadansoddiad economaidd a wnaed gan Lywodraeth y DU ac a ystyriwyd yn yr Asesiad Effaith.

   Gan mai prin yw galluoedd Cymru i gynnal modelau economaidd o'r math a ddefnyddiwyd yn yr asesiad hwn, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gallu cynnal na chomisiynu modelau CGE o'r testun a negodwyd a'i effaith uniongyrchol ar Gymru ar gyfer yr asesiad effaith hwn. Fodd bynnag, hyd yn oed pe bai'r gallu hwn ar gael i ni, mae'n annhebygol a fyddai'r canlyniadau'n wahanol iawn i asesiad y DU, er wrth gwrs, y gellid ymchwilio i llinellau sylfaen eraill. I'r perwyl hwn, gellid defnyddio dadansoddiad CGE Llywodraeth y DU ar gyfer y DU i sicrhau rhai canlyniadau ynghylch y prif effeithiau ar Gymru. Ar lefel fanylach, gellid gweld yr effeithiau ar Gymru trwy ystyried pa gyfran o'r manteision net a amcangyfrifir a ddaw i'r DU y gellid eu priodol i Gymru.

6. ***Ceir darpariaethau yn y CEPA ar gyfer rhagor o gydweithio mewn meysydd fel Dynodiadau Daearyddol, amaethyddol a chefnogaeth i BBaChau. Mae hyn yn cynnwys hefyd sefydlu gweithgorau fel y Gweithgor ar Fasnach a Rhoi Grym Economaidd i Fenywod ac ar Gydweithio mewn Amaethyddiaeth. Pa addewidion y mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio eu cael i sicrhau y bydd yn cael cymryd rhan mewn trafodaethau yn y dyfodol mewn meysydd sydd wedi'u datganoli?***

   Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU ar sut y bydd y gweithgorau'n gweithio a rôl Llywodraethau Datganoledig yn hyn o beth. Gofynnir i'r Gweinidog Masnach am addewidion pan welir bod angen.